Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad yr Iaith Gymraeg 2021-22



Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg 152, 158 and 164, a bydd yn tynnu sylw at sut mae'r Archwilydd Cyffredinol, ac Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg, a nodir yn:

- Hysbysiad cydymffurfio'r Archwilydd Cyffredinol
- Hysbysiad cydymffurfio Swyddfa Archwilio Cymru

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Yn ogystal ag amlinellu cydymffurfiaeth gyffredinol yr awdurdod, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth benodol sy'n ofynnol ei chyhoeddi'n flynyddol yn unol â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys data ar nifer y cwynion rydym wedi'u derbyn, lefelau iaith Gymraeg ein staff, yr hyfforddiant rydym ynei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a lefel y Gymraeg rydym yn gofyn amdani ar gyfer pob swydd wag a swyddi newydd rydym wedi'u hysbysebu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saeneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Cyfathrebu â’r staff am y safonau

Polisi Mewnol

Recriwtio

Sgiliau Cymraeg

Hyfforddiant sgiliau Cymraeg

Llunio polisïau

Cwynion

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

1 Mae’r adroddiad blynyddol hwn am y Gymraeg yn amlinellu’r gwaith a wnaed gennym i hyrwyddo’r iaith yn Archwilio Cymru yn ystod 2020-21, ac yn rhoi cipolwg ar ein sefyllfa ar hyn o bryd. Er taw prif swyddogaeth yr adroddiad yw asesu cydymffurfiaeth, mae hefyd yn gyfle i fyfyrio a blaen cynllunio.

2 Mae'r sgôp a chyfle i symud ymlaen gyda strategaeth ac agenda'r Gymraeg yn Archwilio Cymru wedi bod yn gyfyngedig ac fe barhaodd Archwilio Cymru i wynebu sawl her yn ystod 2021-22 a gyflwynwyd gan y sefyllfa barhaus gyda'r pandemig, cyfyngiadau COVID a chyngor parhaus i weithio gartref..

3 Arweiniodd hyn at gyfleoedd cyfyngedig i ymgysylltu â staff wyneb yn wyneb, darparu hyfforddiant ac ymgysylltu â chleientiaid a rhanddeiliaid. Yn ogystal, roedd y swydd Swyddog Iaith Gymraeg gwag yn golygu mai cyfleoedd cyfyngedig oedd yna i ddatblygu'r agenda, er i'r mudiad barhau i hyrwyddo'r iaith a chyfleoedd..

4 Fel pob sefydliad, roedd angen i Archwilio Cymru ganolbwyntio ar addasu i ffyrdd newydd o weithio wrth barhau i ddarparu gwasanaethau archwilio i'n cleientiaid a'n rhanddeiliaid, gan sicrhau bod pawb yn aros mor ddiogel â phosibl. Er gwaethaf y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, rydym wedi gallu ymgysylltu â'n partneriaid mewn ffyrdd newydd, myfyrio ar ein prosesau mewnol, ac addasu i ffyrdd newydd o weithio sy'n edrych yn debyg o barhau wrth inni addasu i weithio'n hybrid.

5 Mae Safonau'r Gymraeg yn parhau i ddarparu fframwaith i Archwilio Cymru weithio ati ac i weithio tuag at ddyhead Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050.

6 Rydym yn amlinellu ein trefniadau i gydymffurfio â’r safonau ar ein gwefan. Mae Swyddog y Gymraeg llawn-amser yn gweithio yn Archwilio Cymru ac mae’n gyfrifol am reoli’r safonau o ddydd i ddydd ac am hyrwyddo’r Gymraeg yn fewnol. Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid sy’n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar y Gymraeg ac am faterion llywodraethu corfforaethol sy’n gysylltiedig â’r Gymraeg..

7 Mae Archwilio Cymru yn parhau i fuddsoddi yn yr iaith Gymraeg, i gefnogi cydymffurfiaeth fewnol â safonau, datblygu'r gweithlu ac i hwyluso perthnasoedd partneriaeth a chleientiaid. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cadarnhaol a wnaed eleni, yn ogystal â chanfod meysydd ar gyfer datblygiad parhaus yw Strategaeth Cymraeg 2050.

## Cyfathrebu â'r Staff am y Safonau

8 Mae'n bwysig cyfathrebu gofynion y Safonau gyda staff i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan y safonau, er enghraifft pan fyddant yn ateb galwadau ffôn neu ohebiaeth.

9 Mae hefyd yn bwysig at lwyddiant Strategaeth y Gymraeg a datblygu'r gweithlu eu bod yn deall y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael iddynt – gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu, technoleg, a deunydd adnoddau dynol..

10 Pan fydd staff newydd yn cyrraedd y sefydliad, maent yn cael sesiwn gynefino bwrpasol lle maent yn cael cyflwyniad i'r safonau o ran eu gwaith a'u cyflogaeth gyda ni. Mae hefyd yn ofynnol i staff newydd di-Gymraeg gwblhau cwrs Croeso ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol lle maent yn dysgu ychydig o Gymraeg sylfaenol ar gyfer y gweithle ac yn datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

11 Rydym wedi darparu offer a chanllawiau niferus ar gyfer staff mewn perthynas â'r safonau sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn gweithio. Er enghraifft, rydym yn darparu canllawiau a thempledi ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon 'allan o'r swyddfa', gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o deitlau swyddi. .

12 Mae cyfres o dechnolegau Cymraeg hefyd ar gael i'r staff ar gais, gan gynnwys 'Cysill' a 'Cysgeir', gwirydd sillafu Cymraeg Microsoft Office, a 'To Bach'. Yn ddiweddar rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn darparu 'Cysill' a 'Cysgeir' ar gyfer staff trwy eu cynnwys fel rhan annatod o liniaduron newydd neu wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl staff ni waeth beth fo'u gofynion o ran iaith..

## Polisi Mewnol

13 Mae ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlinellu'r safonau perthnasol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau ein staff o ddydd i ddydd..

14 Yn eu plith mae ateb galwadau ffôn ac ymateb i ohebiaeth, parchu dewisiadau iaith y cyrff a archwilir gennym a'r cyhoedd, a materion i'w hystyried cyn arddangos posteri ac arwyddion yn ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi ychwanegu bod rhaid i bob e-bost at yr holl staff fod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod yn y man lle mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

15 Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r hawliau sydd gan y staff o dan y safonau, fel argaeledd technolegau Cymraeg, eu mynediad at hyfforddiant Cymraeg, a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn tynnu sylw at eu hawliau i gael dogfennau adnoddau dynol, yn ogystal â chyfarfodydd disgyblu a chwynion cyflogaeth, yn Gymraeg..

## Recriwtio

16 Yn ystod 2021-22, fe wnaethom hysbysebu 45 o swyddi newydd neu wag, gan recriwtio'n fewnol ac yn allanol. Roedd yr hysbysebion ar gyfer 12 o'r swyddi hyn yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'hanfodol' a'r hysbysebion ar gyfer 33 o'r swyddi hyn yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol'. Llwyddwyd i recriwtio i bob swydd y nodwyd fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer

17 O'r 12 swydd nodwyd yn Gymraeg hanfodol, roedd 7 yn brentisiaid a hyfforddeion graddedig, roedd 3 yn ein gwasanaethau archwilio a 2 yn ein gwasanaeth corfforaethol.

18 O fewn ein hymgyrchoedd recriwtio prentisiaid a graddedigion, mae gennym ymrwymiad y bydd o leiaf 20% o'n swyddi yn rhai y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer. Gyda'r holl weithgarwch recriwtio arall, bydd unrhyw ymgyrchoedd sy'n recriwtio ar gyfer 3 swydd neu fwy'n nodi bod o leiaf 20% o'r swyddi gwag yn rhai y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer.

## Sgiliau Cymraeg

19 Mae ein staff yn hunanwerthuso eu sgiliau Cymraeg ac yn eu cofnodi yn y porth Hunanwasanaeth Cyflogeion. Tuag at ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rydym yn annog yr holl staff i ddiweddaru ac i gofnodi eu sgiliau Cymraeg ac i nodi eu lefel gan ddefnyddio'r Matrics Sgiliau Cymraeg.sydd yn cyd-fynd â fframwaith ALTE.

Dyma sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021-22.

**Tabl 1: Sgiliau Cymraeg holl staff Archwilio Cymru**

Nifer staff Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen,canolradd, uwch neu rugl o ran gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg..

*Cafeat: nid yw'r holl ddata sy'n ymwneud â gallu ieithyddol staff wedi mudo i'r system newydd ar gyfer adrodd blynyddol.*

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Yagrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 107 | 113 | 113 | 113 |
| 1 – Mynediad | 11 | 6 | 9 | 9 |
| 2 – Sylfaen | 16 | 5 | 5 | 3 |
| 3 – Canolradd | 5 | 6 | 6 | 5 |
| 4 – Uwch | 5 | 8 | 2 | 5 |
| 5 – Rhugl | 17 | 14 | 18 | 17 |
| **Cyfanswm** | 161 | 152 | 153 | 152 |

20 Rydym hefyd yn dangos nifer y sgiliau Cymraeg yn y sefydliad wedi'u dadansoddi yn ôl gwasanaethau archwilio a gwasanaethau corfforaethol yn Nhablau 2 a 3 yn y drefn honno.

**Tabl 2: Sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru yn ein gwasanaethau archwilio**

Nifer staff Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen,canolradd, uwch neu rugl o ran gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 87 | 91 | 91 | 91 |
| 1 – Mynediad | 8 | 4 | 5 | 5 |
| 2 – Sylfaen | 5 | 2 | 4 | 3 |
| 3 – Canolradd | 4 | 5 | 5 | 4 |
| 4 – Uwch | 5 | 8 | 2 | 5 |
| 5 – Rhugl | 15 | 12 | 16 | 15 |
| **Cyfanswm** | 124 | 122 | 123 | 123 |

**Tabl 3: Sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru yn ein gwasanaethau corfforaethol**

Nifer staff Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen,canolradd, uwch neu rugl o ran gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 21 | 22 | 22 | 22 |
| 1 – Mynediad | 3 | 2 | 3 | 4 |
| 2 – Sylfaen | 3 | 3 | 1 | 0 |
| 3 – Canolradd | 3 | 1 | 1 | 1 |
| 4 – Uwch | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 5 – Rhugl | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | | | | |

21 Rydym wedi gweld cynnydd araf yng nghanran y sgiliau Cymraeg yn Archwilio Cymru yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf.. Digwyddodd hyn trwy gymysgedd o newidiadau i lefelau staff ar y cyfan, staff yn nodi trwy hunangofnodi bod datblygiad wedi bod yn eu sgiliau Cymraeg ac yn diweddaru eu proffiliau yn unol â hynny, a thrwy recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.

# Hyfforddiant

## Hyfforddiant Sgiliau Cymraeg

22 Yn ystod 2021-22, cymerodd staff ran yn y cyrsiau fel y dangosir yn Nhabl 4.

**Tabl 4: Hyfforddiant Sgiliau Cymraeg**

| Cwrs | Niferoedd |
|---|---|
| Work Welsh Online 'Croeso' courses Part 1 | 17 |
| Work Welsh Online 'Croeso' courses Rhan 2 | 13 |

| Cwrs | Niferoedd |
|---|---|
| Work Welsh Online 'Gwella' course Rhan1 | 2 |
| Work Welsh Online 'Gwella' course Rhan2 | 2 |

## Llunio Polisïau

23 Rydym wedi cwblhau asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg mewn perthynas â 9 polisi a phenderfyniad polisi yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill 2021- 31 Mawrth 2022. Mae'r asesiadau hyn o'r effaith yn ofynnol ar gyfer pob polisi newydd a pholisi a adolygwyd i sicrhau effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg..

**Tabl 5: Polisïau a phenderfyniadau polisi**

Y polisïau a phenderfyniadau polisi y cynhaliwyd asesiadau o'u heffaith ar y Gymraeg yn ystod 2020-21.

| Polisi |
|---|
| Polisi Rheoli Newid |
| Polisi Perfformiad |
| Strategaeth Caffael |
| Newidiadau i gynllun teithio a chynhaliaeth |
| Tâl Hyfforddai |

| |
|---|
| Opsiynau Lwfans Teithio |
| Codiad cyflog yn ymwneud â chael gwared ar y lwfans teithio |
| Polisi Salwch |
| Ailstrwythuro Gwasanaethau Corfforaethol |

## Cwynion

24 Yn ystod 2020-21, ni ddaeth unrhyw gwynion i law drwy Gomisiynydd y Gymraeg ond fe dderbyniwyd un oddi wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chwpl o broblemau ar ein gwefan. Cafodd y mater ei gywiro, a chysylltwyd â'r achwynydd.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôntestun : 029 2032 0660

E-bost: info@archwilio.cymru
Wefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.